

**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT
16 MEDI 2021**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuentid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Iau, 16 Medi 2021.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Janet Axworthy, Bob Connah, Paul Cunningham, Gladys Healey, Dave Mackie, Joe Johnson, Tudor Jones, Dave Mackie, Ian Smith a Martin White

AELOD CYFETHOLEDIG:

Lynn Bartlett

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Sian Braun a Mrs Wendy White

CYFRANWYR:

Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg; Cynghorydd Christine Jones, Dirprwy Arweinydd y Cyngor (Partneriaethau) ac Aelod o'r Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol; Cynghorydd Paul Johnson, Aelod o'r Cabinet Cyllid, Gwerth Cymdeithasol a Chaffael; Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Addysg ac Ieuentid); Uwch Reolwr (Gwella Ysgolion); Uwch Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) Rheolwr Cyllid Corfforaethol a Rheolwr Cyllid Strategol (ar gyfer eitem 5 a 6 ar y rhaglen)

HEFYD YN BRESENNOL:

Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg ac Ieuentid a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democraidd

14. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

15. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cydgyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin a'r cyfarfod cyffredin a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2021.

Cymeradwywyd cofnodion y cydgyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin, y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Tudor Jones a'r Cynghorydd Paul Cunningham.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorydd Paul Cunningham a'r Cynghorydd Janet Axworthy.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

16. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr adroddiad a chadarnhau bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol wedi'i phoblogi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. Tynnodd sylw'r Aelodau at yr adroddiad ar Addysg Ddewisol yn y Cartref, a drefnwyd i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor a ychwanegwyd at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, yn dilyn cais gan y Cynghorydd Gladys Healey yn y cyfarfod diweddar.

Roedd yr Hwylusydd wedi awgrymu newidiadau i'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, oedd yn cynnwys diweddariad ar lafar yn y cyfarfod nesaf a fyddai'n cynnwys y risgiau portffolio a nodwyd gan y Pwyllgor Adfer o amgylch effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc ar eu hiechyd a'u lles emosiynol a gwytnwch mewn ysgolion tra'n rheoli nifer sylweddol o newidiadau. Hefyd awgrymwyd bod adroddiad diweddariad ar ddarparu cynlluniau Chwarae Sir y Fflint yn llwyddiannus ac adroddiad ar Raglen Haf Llawn Hwyl Llywodraeth Cymru yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi ychwanegu'r eitemau a awgrymwyd.

Roedd yr Hwylusydd hefyd yn darparu gwybodaeth ar ddau gam parhaus, fel yr amlinellwyd yn atodiad 2 o'r adroddiad.

Mewn ymateb i'r cwestiynau ar yr adroddiad ar Addysg Ddewisol yn y Cartref, roedd y Prif Swyddog wedi cadarnhau y byddai'r adroddiad yn darparu gwybodaeth am y nifer o ddisgyblion oedd yn derbyn addysg yn y cartref ar hyn o bryd ynghyd â Chyfrifoldebau Statudol y Cyngor a gorolwg o sut oedd y Gwasanaeth Lles Cynhwysiant yn rhyddhau swyddogaeth y Cyngor o ran y disgyblion hyn. Byddai'r adroddiad hefyd yn darparu gorolwg eang o'r rhesymau pam bod rhieni wedi gwneud y penderfyniad i addysgu eu plant yn y cartref.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Cunningham yr argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Tudor Jones.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
- (b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
- (c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

17. CYLLIDEB 2022/23 – CAM 2

Cyflwynodd y Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) adroddiad am ail gam y gyllideb a oedd yn rhoi manylion y rhagolygon a'r pwysau o ran costau a fyddai'n arwain at ofynion cyfanswm y gyllideb.

Roedd adroddiad i'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ym mis Gorffennaf yn rhoi diweddariad ar sefyllfa'r gyllideb ar gyfer 2022/23. Roedd y pwysau costau a nodwyd wedi eu cyfeirio at y Pwyllgorau

Trosolwg a Chraffu perthnasol gyda chais eu bod i gyd yn cynnal adolygiad trwyadl. Roedd manylion y pwysau costau i Addysg ac Ieuenctid yn gynwysedig yn yr adroddiad.

Roedd y Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid Corfforaethol a'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) wedi darparu cyflwyniad manwl a oedd yn trafod y meysydd canlynol:-

- Pwrpas a chefnidir
- Crynodeb o Gyfansymiau Pwysau Costau
 - Pwysau Addysg ac Ieuenctid
 - Pwysau Cyllideb Ysgolion
- Crynodeb holl Bwysau Costau
- Pwysau Cyllideb y Tu Allan i'r Sir
- Datrysiadau Strategol
- Y wybodaeth ddiweddaraf am effeithlonrwydd
- Amserlenni Cyllideb

Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau am gyllid ar gyfer prydau ysgol am ddim, cadarnhaodd y Prif Swyddog bod yr heriau i brynu prydau ysgol a byrbrydau wedi'i amlygu gan fyfyrwyr a gobeithio os byddai yna hyblygrwydd o fewn y gyllideb i godi hyn, byddai'n cael ei groesawu'n fawr. Y sefyllfa mewn ysgolion cynradd oedd bod prydau yn brydau wedi eu paratoi o nifer o ddewisiadau. Ar y lefel uwchradd roedd yn fwy o arddull caffeteria gyda mwy o ddewisiadau ar gael ar gyfer pobl ifanc. Roedd y lwfans prydau ysgol am ddim presennol i bob sector yn £2.35 y dydd. Roedd hyn yn ddigon mewn ysgol uwchradd i brynu brechdan, darn o ffrwyth a photel o ddŵr neu gynnig pryd ond roedd adborth drwy'r Fforwm Gwasanaethau Plant yn nodi nad oedd hyn yn ddigon e.e. nid yw'n caniatáu ar gyfer brecwast neu fyrbryd canol bore. Hefyd, cadarnhaodd y Prif Swyddog fod NEWydd yn fedrus iawn yn darparu bwyd ardderchog a oedd yn bodloni gofynion maethol safonol. Byddai cynnydd i ddisgyblion oed uwchradd yn fuddiol.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod cynnydd mewn lwfans prydau ysgol am ddim wedi'i gynnwys o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, i gynyddu'r lwfans yn ddarostyngedig i fforddiadwyedd. Roedd yn croesawu'r pwysau costau yn Uned Cyfeirio Disgyblion Plas Derwen, a oedd yn dyheu i wella'r amgylchedd dysgu a darparu mwy o gymhwyster. Ynglŷn â'r pwysau costau ar gyfer swyddi newydd, roedd hyn wedi'i ddsbarthu ar gyfer pob portffolio i ddarparu gwybodaeth ar eu hanghenion hanfodol ble cynhaliwyd proses gadarn i flaenoriaethu'r sawl oedd angen ystyriaeth wirioneddol. Roedd y pandemig wedi dwysau rhai o'r bylchau ond byddai'r rhain yn cael eu hadolygu os na fyddai cyllideb gybtwys yn cael ei chyflawni'r flwyddyn nesaf.

Roedd y Cynghorydd Dave Mackie yn cefnogi'r sylwadau a wnaed gan y Prif Swyddog o amgylch y cynnydd mewn prydau ysgol am ddim, a godwyd fel pryder gan bobl ifanc mewn cyfarfod o'r Fforwm Gwasanaethau Plant. Roedd yn gwneud sylw ar bwysau costau a dywedodd y cytunwyd ar rai ohonynt yn ystod gosod cyllideb 2021/22 ac awgrymodd ble roedd pwysau costau wedi'i gymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol, dylid nodi hyn yn yr adroddiadau. Roedd y Prif Weithredwr yn awgrymu bod adroddiadau'r dyfodol yn cael eu

haddasu i gynnwys penderfyniadau a gytunwyd yn flaenorol a phwysau costau newydd ar gyfer cyllideb 2022/23.

Roedd y Cynghorydd Janet Axworthy wedi gwneud sylw ar y pwysau costau ar gyfer y Cydwasanaeth Archif a dywedodd ei bod yn siomedig bod y cais loteri diweddar wedi bod yn aflwyddiannus. Roedd yn gobeithio y byddai ceisiadau yn y dyfodol yn llwyddiannus gan fod hon yn fenter mor bwysig o fewn y Cyngor. Gofynnodd y Cadeirydd a fu unrhyw adborth ar y cais loteri. Cytunodd y Prif Swyddog fod y cais aflwyddiannus yn siomedig ond rhoddwyd sicrwydd bod y cais yn un ardderchog ac na fyddai unrhyw beth arall wedi gallu cael ei wneud i wella'r cais ond yn anffodus nid oedd yna ddigon o arian cenedlaethol ar gael.

Dywedodd y Cadeirydd am drafodaeth a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cymru yn ymwneud â setliad ar dâl athrawon. Dywedodd fod y penderfyniad i 1% o'r cynnydd gael ei ariannu'n lleol yn cynnwys goblygiadau ariannol i'r Cyngor ac roedd ysgolion yn gofyn am eglurhad ar sut gellir ariannu hyn. Hefyd, gofynnodd a oedd LIC wedi nodi a fyddent yn ariannu dyfarniadau tâl llyfr gwyrdd yn llawn.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai 1% o'r cynnydd yn cael ei ariannu rhwng ysgolion a'r Cyngor. Wrth symud ymlaen, roedd yn rhaid gwneud gwaith ar sut fyddai dyfarniadau tâl yn y dyfodol yn cael eu hariannu ond ar gyfer gweddill 2021/22 byddai'n cael ei ariannu drwy'r arian wrth gefn gyda swm rheolaidd llawn yn mynd i'r gyllideb sylfaen. Ailgadarnhaodd mai sefyllfa'r Cyngor oedd i ddisgwyl i Lywodraethau ariannu dyfarniadau tâl yn llawn yn arbennig LIC gan ei fod yn fater datganoledig. Hefyd cadarnhaodd nad oedd yna gyllid ychwanegol ar gyfer y dyfarniadau tâl llyfr gwyrdd yn y flwyddyn ariannol bresennol gan fod hyn yn parhau i gael ei drafod a heb ei gwblhau.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor am ddatganiadau blaenorol gan Lywodraeth Cymru y byddai'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol yn niwtral o ran cost ac mai nid dyma'r achos. Mewn cyfarfod diweddar gyda CLILC a LIC mynegwyd pryder eto o amgylch darparu cyllid angenrheidiol i ddiwallu gofynion y Bil. Hefyd rhoddodd wybodaeth am y trafodaethau manwl rhwng CLILC a LIC o amgylch dyfarniadau tâl ac roedd LIC yn disgwyl i Awdurdodau Lleol baratoi cyfrifiadau cyn cytuno ar y dyfarniadau tâl. Dywedodd ei bod yn anodd rhagweld pa ffigwr oedd y panel adolygu annibynnol yn debyg o'i gyflwyno a phan fyddai'r dyfarniad yn cael ei gyhoeddi.

Roedd y Cynghorydd Mackie yn gwneud sylw ar y buddsoddiad mewn cyllidebau ysgol dirprwyol, fel yr amlinellwyd o fewn yr adroddiad a'r cyflwyniad. Dywedodd fod yr £1miliwn ychwanegol a ddyrannwyd o fewn y gyllideb 2021/22 wedi'i groesawu ac roedd yn gwerthfawrogi'n llwyr bod ei ddiben yn gysylltiedig ag argymhelliad Arolwg Estyn bod y gostyngiad mewn diffygion cyllideb ysgol yn cael ei reoli'n fwy effeithiol. Dywedodd nad oedd yn siŵr sut fyddai'r pwysau cost £1miliwn ychwanegol ar gyfer cyllideb 2022/23 yn cael ei ddyrannu i ysgolion a gofynnodd pam y teimlwyd bod angen cynnwys £1miliwn ychwanegol.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr bod yna ddau ddyraniad £1miliwn, £1miliwn o fewn cyllideb 2021/22 ac £1miliwn bwriedig o fewn cyllideb 2022/23. Roedd yn falch fod y Cyngor mewn sefyllfa i gael arian ychwanegol ar gael o fewn y gyllideb cyn gwneud penderfyniadau ar sut yr oedd yn cael ei

wario. Roedd £1miliwn y llynedd ar gyfer 2021/22 yn parhau'r un fath ar gyfer 2022/23 ac roedd y cynigion sut y gallai'r £1miliwn ychwanegol hwn gael ei ddefnyddio o fis Ebrill nesaf. Dywedodd mai ei brif ddiben oedd i gefnogi ysgolion uwchradd gyda diffygion parhaus ac/neu ysgolion uwchradd fyddai'n gallu symud i sefyllfa diffyg cynyddol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y swm a roddwyd y llynedd yn gylchol ac roedd yn y gyllideb sylfaen ar gyfer eleni. Byddai'r £1miliwn ychwanegol, os cefnogir, yn cael ei ddefnyddio i leihau diffyg yn unol ag argymhellion Estyn.

Roedd Arweinydd y Cyngor yn adleisio sylwadau'r Prif Weithredwr ac yn egluro y dylai holl Aelodau'r Cyngor benderfynu pa un a fyddai'r £1miliwn ychwanegol arfaethedig yn cael ei gynnwys o fewn cyllideb 2022/23. Dywedodd ei fod yn falch o weld bod y nifer o ysgolion uwchradd mewn sefyllfa cyllideb dros ben yn gwella.

Roedd y Cynghorydd Mackie yn egluro beth fyddai'r £1miliwn a fuddsoddir mewn cyllideb ysgolion dirprwyol yn cael ei ddefnyddio ac yn teimlo bod y wybodaeth hon yn angenrheidiol i alluogi Aelodau i gefnogi proses gosod y gyllideb. Eglurodd y Prif Weithredwr ei bod yn fuan iawn yn y broses gosod y gyllideb ac na fyddai'r £1miliwn o gyllid ychwanegol arfaethedig yn cael ei gynnwys yng nghynigion y gyllideb derfynol os nad oedd yn fforddiadwy. Cyn gosod y gyllideb, byddai gwybodaeth am sut y byddai'r cyllid ychwanegol hwn yn cael ei ddyrannu yn cael ei darparu i'r holl Aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor a'r Swyddogion am y drafodaeth fanwl ar y pwysau costau bwriedig a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Yn dilyn trafodaeth ar yr argymhellion a amlinellwyd o fewn yr adroddiad, awgrymwyd bod y Pwyllgor yn cefnogi pwysau costau'r portffolio ac nad oedd unrhyw feysydd effeithlonrwydd cost pellach yn cael eu cynnig. Hefyd, awgrymwyd bod gwybodaeth bellach ar sut mae'r £1miliwn o fuddsoddiad a fwriedir mewn cyllidebau ysgol dirprwyedig yn cael ei dosbarthu i Ysgolion yn cael ei darparu i'r Pwyllgor.

Cynigiodd y Cynghorydd Dave Mackie gefnogi'r argymhellion fel yr amlinellwyd uchod ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Paul Cunningham.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r pwysau costau Portffolio Addysg ac Ieuenctid;
- (b) Ni ddylai'r Pwyllgor gynnig unrhyw feysydd arbedion effeithlonrwydd pellach i'w harchwilio ymhellach; a
- (c) Bod gwybodaeth bellach ar sut mae'r £1miliwn o fuddsoddiad a fwriedir mewn cyllidebau ysgol dirprwyedig yn cael ei dosbarthu i Ysgolion yn cael ei darparu i'r Pwyllgor.

18. CRONFEYDD WRTH GEFN YSGOLION Y FLWYDDYN SY'N DOD I BEN AR 31 MAWRTH 2021

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid) yr adroddiad oedd yn rhoi gwybodaeth ar lefel gyffredinol o arian wrth gefn a gynhelir gan ysgolion Sir y Fflint. Roedd lefel arian wrth gefn i ysgolion wedi cynyddu ar draws pob sector

ac roedd yn rhannol o ganlyniad i'r nifer o grantiau ychwanegol a ddyfarnwyd i ysgolion i gydnabod y materion a achoswyd gan y pandemig. Roedd y grantiau hyn wedi eu dyfarnu'n hwyr yn ystod y flwyddyn ariannol ac wedi chwyddo cronfeydd wrth gefn ysgolion.

Roedd y Cynghorydd Dave Mackie wedi gwneud sylw ar drafodaethau blaenorol o amgylch y fformiwla cyllid ysgol diwygiedig ac y dylai gael ei newid i'w gwneud yn haws i'w ddiweddarau. Roedd yn teimlo bod yr anghysonderau yn y cronfeydd wrth gefn ysgol uwchradd hyn nawr yn nodi bod angen adolygiad. Roedd yn mynegi pryderon o amgylch y gwahaniaeth mewn cyllid i ysgolion oedd â niferoedd tebyg o ddisgyblion ac awgrymodd oherwydd hyn, y dylai'r cyllid a ddyrannwyd a'r cyfanswm cyllid oedd yna gael ei adolygu i sicrhau nad oedd yna gymaint o wahaniaeth mewn cyllid mewn gwahanol siroedd ar draws Cymru. Dywedodd Arweinydd y Cyngor nad oedd yn bosibl cymharu cyllid ar gyfer ysgolion o'r maint tebyg ar draws gwahanol siroedd yng Nghymru gan y gallai fod yna nifer o resymau am y gwahaniaeth. Yn Sir y Fflint, roedd pob disgybl ysgol uwchradd yn cael eu trin yr un fath heblaw am y sawl ag anghenion ychwanegol. Ychwanegodd bod cymhariaeth data amrwd yn seiliedig ar niferoedd disgyblion yn dibynnu ar y math o sir, gydag ysgolion mwy mewn ardaloedd trefol. Roedd ysgolion gwledig llai yn hanfodol i ddarparu addysg i ddisgyblion yn yr ardaloedd ble roeddent yn byw.

Roedd y Prif Weithredwr yn cytuno gyda sylwadau'r Arweinydd ac yn dweud bod gwariant mwyaf y Cyngor ar addysg. Roedd Sir y Fflint yn parhau'n Gyngor oedd yn cael llai o arian ac os bydd hyn yn cynyddu yna byddai'n bosibl cynyddu gwariant fesul disgybl. Er gwaethaf hyn, roedd gan y Cyngor fwy o arian ble bo'n bosibl gydag adnoddau cyfyngedig.

Roedd yr argymhelliad fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Janet Axworthy a'r Cynghorydd Ian Smith.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi lefel arian wrth gefn ysgolion hyd at 31 Mawrth 2021, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

19. DIWEDDARIAD GWEITHREDOL COVID-19 I YSGOLION

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad oedd yn manylu'r trefniadau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel, fel yr amlinellwyd yn y Canllawiau Gweithredol Covid-19 diwygiedig gan Lywodraeth Cymru a Fframwaith Penderfyniad Haint Covid-19 Lleol.

Dywedodd yr Uwch-Reolwr (Gwella Ysgolion) yn dweud bod y Gweinidog Addysg wedi cynghori pob ysgol ar ddiwedd tymor yr haf mai'r egwyddor arweiniol ar gyfer mis Medi oedd y dylent weithredu mor normal â phosibl gan gynnwys darparu brechwast am ddim a chlybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau allgwricwlar a phynciau ymarferol. Roedd y canllawiau gweithredol manwl ar gyfer ysgolion wedi'i gwtogi ac yn cael ei ddisodli gan Fframwaith Penderfyniad Haint Covid-19 Lleol. Roedd y Fframwaith yn galluogi ymyrraeth i gael ei theilwra i lefel risg lleol a disgwylir i ysgolion newid i'r Fframwaith newydd hwn erbyn 20 Medi 2021.

Roedd pob ysgol yn Sir y Fflint wedi agor yn llwyddiannus ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd gydag ysgolion yn parhau i gael asesiadau risg manwl ar waith i sicrhau lefel o reolaeth addas. Mae'r rhain yn cael eu newid i alinio gyda'r Fframwaith newydd.

Roedd y Cadeirydd yn croesawu sylwadau a wnaed gan y Prif Swyddog (Addysg ac Ieuencid) mewn cyfarfod Pwyllgor Adferiad diweddar o amgylch y nifer isel o absenoldeb athrawon a staff cynorthwyol, oedd wedi bod yn gadarnhaol. Dywedodd ei fod yn bryderus ynglŷn â disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ond roedd yn falch bod y tymor wedi dechrau'n gadarnhaol.

Awgrymodd y Cynghorydd Dave Mackie y dylai'r Pwyllgor ddangos ei werthfawrogiad o arweinyddiaeth yr ysgol, oedd wedi galluogi disgyblion i dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel. Dywedodd am ysgolion yn cymryd camau mwy trugarog er mwyn cefnogi dysgwyr yn ystod y pandemig ond teimlodd wrth symud ymlaen, roedd yn rhaid i ysgolion ailgyflwyno disyblaeth mewn ffordd ofalgar a chefnogi rhieni i sicrhau bod hyn yn digwydd. Roedd yr Hwylusydd wedi cadarnhau yn ystod y cyfarfod nesaf, byddai'r Pwyllgor yn darparu diweddariad ar lafar ar effaith yr oedd y pandemig wedi'i gael ar bobl ifanc yn arbennig ar eu hiechyd a lles a'u gallu i ymgysylltu a dysgu.

Roedd yr Uwch-Reolwr (Cynhwysiant a Chynnydd) wedi ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Mackie ac amlinellu bod ysgolion wedi gweithio'n galed iawn i hysbysu rhieni ar gyfyngiadau presennol Covid-19 mewn ysgolion. Rhoddwyd sicrwydd ar y mesurau ar waith mewn ysgolion i rieni hefyd. Roedd gwasanaethau ehangach y Cyngor hefyd wedi gweithio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni ar brosesau, gan ddarparu cyngor ar fudd-daliadau a chefnogaeth i gael mynediad i TG ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gladys Healey at y pwysau ar blant a phobl ifanc oedd nawr yn cynnwys brechiad gyda'r cynnig i frechu plant 12 oed a hŷn. Gan fod disgyblion nawr yn gallu rhoi eu cydsyniad eu hunain oedd hyn yn ychwanegu at eu pwysau. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr bod hyn yn gwestiwn moesegol yn cydbwyso hyn gyda'r Ddeddf Hawliau Dynol a Hawliau Cyfreithiol Plant. Ei ddealltwriaeth ef oedd mai'r brechlynwyr neu feddygon teulu fyddai'n penderfynu pa un a yw disgybl yn gallu rhoi cydsyniad. Roedd hyn y tu hwnt i reolaeth y Cyngor.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cynghorydd Mackie, awgrymodd y Cynghorydd Gladys Healey bod llythyr yn cael ei anfon i holl ysgolion gan y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn diolch iddynt am eu gwaith caled i sicrhau bod disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

Roedd yr argymhelliad fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Bob Connah a'r Cynghorydd Martin White.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor yn nodi'r trefniadau ar gyfer dychwelyd i'r ysgol yn ddiogel, fel yr amlinellwyd yn y Canllawiau Gweithredol Covid-19 diwygiedig gan Lywodraeth Cymru a Fframwaith Penderfyniad Haint Covid-19 Lleol.

20. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ADOLYGIAD THEMATIG ESTYN

Cyflwynodd yr Uwch-reolwr (Gwella Ysgolion) yr adroddiad oedd yn rhoi manylion y pump prif argymhelliad i Lywodraeth Cymru a Chynghorau i roi sylw yn dilyn yr adolygiad thematig o'r gwaith a wnaed gan adrannau addysg pob Cyngor yng Nghymru i gefnogi eu cymunedau sy'n dysgu mewn ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yn ystod y cyfnod o Mawrth i Hydref 2020.

Roedd llythyr adolygiad cyntaf Sir y Fflint, a dderbyniwyd ym mis Ionawr 2021 wedi bod yn gadarnhaol iawn. Yn ystod tymor yr haf 2021, roedd Estyn wedi cynnal adolygiadau dilynol gyda holl Cynghorau yng Nghymru i ystyried y cynnydd a wnaed yn erbyn eu hargymhellion cychwynnol yn yr adolygiad thematig cenedlaethol. Roedd yr adolygiad wedi arwain at ail lythyr at y Prif Weithredwr oedd yn rhoi lefel uchel o sicrwydd bod y Portffolio yn parhau i weithio'n effeithiol drwy ei adnoddau ei hun a thrwy ei gefnogaeth i ysgolion mewn partneriaeth â GwE. Roedd copi o lythyr, oedd yn cynnwys adborth ar ymateb y Cyngor i bump argymhelliad y Cyngor ynghlwm fel Atodiad 1 o'r adroddiad.

Daeth yr Uwch-Reolwr i'r casgliad bod yr adolygiad thematig wedi casglu'r newidiadau positif o amgylch dysgu cyfunol a digidol a'r cynnydd a wnaed tuag at y cwricwlwm newydd.

Roedd y Prif Weithredwr yn croesawu'r llythyr a dywedodd ei fod yn cynnig lefel o sicrwydd. Roedd y Cadeirydd y adleisio'r sylwadau a wnaed a dywedodd y dylid canmol ysgolion am y gwaith a wnaed.

Roedd yr argymhelliad fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad ac fe'i heiliwyd gan y Cynghorydd Dave Mackie a'r Cynghorydd Janet Axworthy.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cydnabod gwaith effeithiol y Portffolio Addysg, ar y cyd â'r gwasanaeth rhanbarthol gwella ysgolion GwE, i sicrhau fod dysgwyr Sir y Fflint wedi parhau i gael darpariaeth addysgol effeithiol trwy'r pandemig Covid-19; a
- (b) Bod y Pwyllgor yn nodi cynnydd cadarnhaol a wnaed yn erbyn pob un o'r pum argymhelliad gan Estyn yn yr adolygiad thematig cenedlaethol gan y Portffolio Addysg ac ysgolion.

21. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a gorffennodd am 4:04pm)

.....
Y Cadeirydd